PROSIECT WICKED

ADRODDIAD CHWARTER BLWYDDYN – MEHEFIN - MEDI '08

TIR COED

1. **Trosolwg o weithgareddau Tir Coed**

1. Dan arweiniad yr ysgrifennydd, John Wilding, a gyda chynhaliaeth y Cadeirydd, Simon Hewitt, bu'r Tim Tir Coed yn cyfarfod yn fisol i drafod datblygiadau a phroblemau.

2. Fe drefnwyd cyfarfod rhwng swyddogion tir coed a swyddogion Tîm Troseddi Ieuenctid Ceredigion (TTI) i drafod y posibilrwydd o ddatblygu rhaglen hyfforddi gydnabyddedig ar gyfer y bobol ifanc mae'r TTI yn delio a hwynt. Y bwriad yw defnyddio tystiolaeth o'r cynllun hwn fel rhan o gais gan y TTI am nawdd i gynnal rhaglen o hyfforddiant cydnabyddedig ar gyfer troseddwyr ifanc trwy gydol 2009 ac yn y dyfodol

3. Er ein bod wedi ceisio ennill arian gan sawl ffynhonnell elusennol fechan, nid ydym wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn. Mae Tir Coed yn bwriadu ceisio nawdd gan nifer o gronfeydd eraill, ond mae'r ceisiadau hyn yn debygol o gymerid amser i'w llunio a'i hanfon oherwydd canllawiau penodol y cronfeydd.

4. Mae Gwyneth wedi creu pro forma, ac wedi manylu cyllideb ar gyfer ymestyn gweithgareddau WICKED, a chydran dysgu oedolion a ieuenctid WAG, am 4-mlynedd.
Mae'r adran yn ceisio ennill arian gan Raglen Cydgyfeiriant Ewrop ar gyfer rhaglen "Reach The Heights" – rhaglen sydd yn anelu i ddatblygu sgiliau a chodi lefelau cyflawniad pobol ifanc 'anodd i'w cyrraedd' yng Nghymru.
Yn ystod mis Mehefin fe hysbyswyd Tir coed gan Swyddfa Ariannu Ewrop Cymru fod dim posib cynnwys prosiectau lleol a rhanbarthol fel partneriaid i "Reach The Heights". Mae Gwyneth yn y broses o gysylltu a'r holl sefydliadau sydd wedi cael ei cynnwys fel partneriaid yn y prosiect "Reach The Heights":
Urdd Gobaith Cymru, The Cyngor Celfyddydau Cymru, Theatr Fforwm Cymru, Cerddoriaeth Cymuned Cymru, Plant yng Nghymru, 'Save the Children' Cymru, Funky Dragon, SNAP Cymru a Techniquest – i'w hysbysu ynglŷn a gweithgareddau Tir Coed ac i geisio cydweithio i cyflawni ein hymgeision. Mae'n rhaid nodi fod canllawiau WEFO yn tanlinellu fod yn rhaid i'r holl weithgareddau caffaeliad gael ei llywio drwy wefan Sell2Wales. Mae Tir Coed eisoes wedi cofrestru ar y wefan fel darparwr cyfleusterau.

5. Mae Gwyneth yn gweithio ar syniadau gwahanol i godi arian i barhau a'r prosiect WICKED yn ogystal a phrosiect EGIN Tir Coed.
Bu cais i Ymddiriedolaeth Esmee Fairbairn am arian ar gyfer prosiect EGIN yn aflwyddiannus; mae Anna Jenkins wedi awgrymu ceision eto yn gynnar flwyddyn nesaf am arian i ymestyn prosiect WICKED.
Mae'r rhaglen 'Cymunedau a Natur', gronfa cydgyfeiriant, a weinyddir gan CCW, yn y broses gynllunio; eto, bydd rhaid i Tir Coed dyneru ar gyfer unrhyw rhan yng nghyflwyniad y rhaglen.

6. Fe drefnwyd diwrnod allan ar gyfer cyfarwyddwyr Tir Coed ym mis Gorffennaf. Wedi cwrdd yn safle ysgol goedwigaeth Coedwigaeth Gymunedol Longwood, fe gynigwyd y gyfle i gyfranogi mewn rhai o'r gweithgareddau a gynigir i'r bobl ifanc fel rhan o brosiect WICKED. Yn ogystal, fe gyflwynwyd tystysgrifau OCN i ddau o'r tri gwr ifanc a enillodd eu cymhwyster Rhwydwaith Coleg Agored yng Ngholeg Coppipcewood. Treuliwyd y prynhawn yn trafod syniadau ar gyfer dyfodol Tir Coed. Mae'r aelodau staff yn ddiolchgar i'r cyfarwyddwyr am ei cyfraniad yn ystod y diwrnod.

7. Fe fynychodd John Wilding a Gwyneth ddau o'r digwyddiadau a drefnwyd gan WCVA. Ffocws y cyntaf oedd cynllunion ar gyfer y dyfodol. Roedd gweithdai ar cyflwyno cynigion, ariannu cynaliadwy, a rheoli siawns yn effeithlon.

Pwrpas yr ail weithdy oedd ehangu gwybodaeth sefydliadau tertaidd ynglŷn a chynnydd WAG Adran y Plant, ceisiadau yr Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS) a arian cydgyfeiriant gan gynnwys arian 'Reach the Heights.' By hefyd diweddariad ar y prosiectau oedd yn datblygu dan arian Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd.
Fe leisiodd John a Gwyneth ei gofidion ynglŷn ar' ffaith fod gan sefydliadau Cymru-gyfan ddim y profiad angenrheidiol o ddulliau creadigol, a traddodiadol o ddelio efo pobol ifanc dan anfantais . Hefyd, mi fyddai sefydliadau mwy yn blaenoriaethu prosiectau mewnol ac, o ganlyniad, mi fyddai llawer o'r profiad sydd wedi ei grynhoi mewn sefydliadau lleol a rhanbarthol yn cael ei golli.

8. Fe ysgrifennodd Gwyneth a Elin Jones, Gweinidog Materion Gwledig, i leisio ei gofidion ynglŷn a'r materion uchod, gan danlinellu y posibilrwydd y gallai hyn amddifadu pobol ifanc mewn angen sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig o wasanaethau a prosiectau. Fe ymatebodd Elin Jones gan ofyn am gyfarfod a aelodau Tir coed yn hwyr yn yr hydref.

9. Mae Becky a Gwyneth wedi bod yn dygymod a llwyth gwaith swmpus yn ymateb i'r galw am weithgareddau fel rhan o brosiect WICKED yn ystod y misoedd diwethaf. Felly, rydyn yn falch iawn fod Tir Coed wedi gallu cyflogi Swyddog Prosiect Cynorthwyol rhan-amser. Fe ariannwyd y swydd hon gan gyllid gorbenion cyfraniad y CCW i WICKED, yn ogystal a arian gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae Angie Martin wedi ymuno a ni ar gontract 22.5 awr yr wythnos am 12 mis. Mae hi eisoes wedi cyflawni llawer, ac mi fydd yn gaffaeliad gwerthfawr yn natblygiad prosiect Wicked , yn enwedig oherwydd ei cefndir yn y sector addysg.

10. Mae John Wilding wedi bod mewn cysylltiad a Michael Norman o Stad Goedwigaeth Penllergaer; mae'n bosib fod yna gyfle i weithio ynghyd a mewn partneriaeth. Fe drefnwyd cyfarfod i trafod y mater yn bellach.
Mae Simon Hewitt mewn cyswllt a Cultivations (sefydliad sydd yn trefnu gweithgareddau tebyg i Tir Coed ond drwy arddwriaeth), rydyn y n gobeithio trefnu cyfarfod i drafod y potensial o weithio mewn partneriaeth yn y dyfodol agos.

2. Gweithgareddau prosiect WICKED yn y chweched chwarter
(gan gynnwys cymharu cyrhaeddiad a targedau a allbwn.)

a) Menter ACORN
(Gweithgareddau gorffwyso i ofalwyr ifanc)

Gofalwyr ifanc Powys:

<u>Tros nos yn y coed gyda grŵp Randor</u>
Bu saith gofalwr ifanc yn cymryd rhan yn y weithgaredd hon, a gynhaliwyd yng nghoedwigaeth Lletty ar Ystad Doldowlod.
Cafodd y grŵp y cyfle i ddefnyddio bilygau a llif fwa i wneud gordd bren, gweu glan i frigau i wneud gawellau breuddwyd, coginio bwydydd gwahanol dros dan agored, yn ogystal a chodi'r wersyllfan (gan ddefnyddio pebyll a deunyddiau a brynwyd ar gyfer y grŵp gan Tir Coed).
Y canlyniadau dysgu oedd:

- Adnabod planhigion a anifeiliaid lleol;
- Defnyddio offer yn ddiogel;
- Ymwybyddiaeth amgylcheddol;

- Gweithio mewn tîm;
- Rheoli diogelwch personol a chynnydd yn ei ymwybyddiaeth o beryglon.
  Yn anffodus bu glaw trwm yn ystod yr ail ddiwrnod; oherwydd hyn bu'n anodd iawn cynnal gweithgareddau grŵp ar yr ail ddiwrnod.

Cawsom adborth gan chwech o'r cyfranogwyr:

NOD	**CYRHAEDDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pawb o leiaf un eitem	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Pawb yn bresennol, 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Llwyddodd 100% i enwi o leiaf un rhywogaeth	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	100% yn gallu enwi o leiaf un math a ffawna	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 83% yn gwybod am un ffordd	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 83% yn teimlo'n well am ei hyn	Roedd 1 un teimlo'n llai hapus
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd 83% am wneud mwy o weithgareddau	Roedd 1 ddim eisiau mynychu gweithgareddau tebyg eto

Hoffterau- *"Y bont raff"*
"Yr ardd; gwneud yr ordd"
"Gwneud gardd yn y goedwig"
"Gwersylla a chysgu yn y coed"

"Cynnau tan"

Anhoffterau- *"Dim byd" x2*
"Y tywydd"
"Mwg o'r tan"
"Gormod o law"
"Y bont raff"

Beth wnaethoch chi?- *"cyllell"*
"gardd" x 4
"gordd" x3
"stôl" x2
"collage"
"pop corn"
"cwrs raffau, chwarae'r gitâr, cadw'r tan yn fyw"

Adborth o'r Gweithwyr Cynorthwyol:

"nid oedd canran uchel o'r cyfranogion wedi gwersylla o'r blaen – doedd neb wedi gwersylla mewn coedwig. A hyfforddiant, fe gynyddodd hyder pawb tra'n defnyddio offer gweithio coed. Fe enillodd pawb ddealltwriaeth o weithio mewn tîm i gynnal y gwersyll... teimlais fod y gwersyll wedi gweithio'n dda iawn. Oherwydd ein bod wedi cael dau ddiwrnod o dywydd gwahanol cawsom y cyfle i gynnal gweithgareddau gwahanol a phrofi dynameg criw gwahanol. Gwych."

Adborth o'r Hyfforddwr:

"Fe benderfynodd y plant ar y cyfle i ddatblygu ei gwersyllfannau a bu dau griw o ferched yn gweithio yn ddiwyd iawn wrth greu gerddi cymhleth a llawn dychymig i gynrychioli'r amgylchedd ger ei pebyll...Fe ymatebodd y grŵp yn effeithlon i'r glaw trwm yn gynnar ar fore'r ail ddiwrnod ac eto fe fu ymateb positif i bob sialens a wynebwyd."

<u>Treulio noson yn y coed efo criw Brycheiniog</u>
Roedd hon yn weithgaredd debyg i'r un a ddisgrifiwyd uchod.
Ond mynychodd y criw hwn weithgareddau cerfio, saethyddiaeth, darlunio a marwor, ynghyd â chynnig cyflwyniadau ar y gweithgareddau yn (fe gofnodwyd y rhain ar fidio).
Fe wnaeth un o'r cyfranogion nodwyddau gwehyddu allan o frigau a'i defnyddion i ddysgu gweu dros y ddau ddiwrnod nesaf – fe wnaeth sgarff amryliw ar gyfer tedi ei chwaer.
Dangosodd y cyfranogwr arall lawer o frwdfrydedd wedi iddo weld tylluan yn gorffwys mewn coeden.
Bu wyth gofalwr ifanc yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, ond bu'n rhaid i dri ohonynt adael yn gynnar ac felly nid oeddent yn gallu llenwi'r ffurflen adborth.

NOD	**CYRHAEDDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pawb o leiaf un eitem	
70% o gyfranogwyr y	Cyfradd	

weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	presenoldeb 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Llwyddodd 100% i enwi o leiaf un math o goeden	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	80% yn gallu enwi o leiaf un math a ffawna	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 80% yn gwybod am o leiaf un ffordd	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 100% yn teimlo'n well am eu hunain	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd 100% am wneud mwy o weithgareddau	

Hoffterau- *"Gwneud bwa saeth"*
"Coginio pop corn"
"Ymarfer corff acrobataidd, saethyddiaeth"
"Ffilmio'r fideo"
"Gwneud y bwa croes, y 'swinger', a'r bwa.. gwneud llwyth o bethau... dwy noswaith to nesaf!"

Anhoffterau- *"Dim byd" x2*
"Cysgu yn y tywyllwch"
"Cerdded i fyny'r bryn"
"Roedd y cwrs yn rhy fyr"
"Byw yn y llety roedd rhaid i mi ei adeiladu"

Beth wnaethoch chi?- *"Bwa saeth a phensil"*
"Cawell breuddwydion" x2
"Paratoi sioe i bawb yn y coed"
"Lloches go iawn ... bwa croes, bwa, a 'swinger'

Ym mha ffyrdd ydych yn teimlo'n well yn eich hunain?
"Cael amser oddi cartref"

"Mae fy mrawd yn fy mhoeni o hyd, mae'n braf cael amser oddi wrtho"
"Yn fwy addfwyn, mae'n braf peidio gorfod poeni am fy mrawd yn gwneud niwed i'w hyn"
"Rwy'n gallu ymlacio, ac yn hapusach"
"Rwy'n hapus"

Adborth o'r Hyfforddwr:
"Ond am un, roedd pob un o'r plant yn frwdfrydig am y gweithgareddau, ac fe ddaeth pawb i arfer a'r gwersyll mewn da bryd. Roedd yr eithriad yn hapus yn ystod y dydd ond roedd yn gweld eisiau ei gartref unwaith iddi dywyllu. Fe sylwais fod y plant oedd wedi arfer a 'mod cons' yn frwdfrydig iawn tra'n cyflawni gweithgareddau elfennol, fel gwneud marwor, cerfio, adeiladu a deunyddiau naturiol – lle fel arfer y byddent yn ddibynnol ar dechnoleg fodern... Fe unodd y grŵp yma a'i amgylchedd yn wych ac fe ddaeth terfyn y cwrs yn llawer rhy gynnar iddynt!"

<u>Gŵyl Fawr Powys, Ebrill 27ain & 28ain:</u>

Fe drefnwyd y prosiect hyn gan Wasanaeth Gofal Powys ar gyfer ei Gofalwyr Ifanc. Roedd Tir Coed yn cynnal y prosiect gan ariannu rhan ohono a threfnu gweithgareddau coedwig a gwyrdd. Cynhaliwyd yr ŵyl ar Stad Doldowold, Sir Faesyfed. Er fod y trefnwyr wedi gobeithio denu aros 90 o bobol ifanc, fe fu'r galw trwm tros fisoedd yr haf yn ddigon i leihau'r brwdfrydedd cyffredinol am weithgareddau tu allan, yn y pen draw dim ond 15 oedd yn bresennol.
Er hyn, roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r cyfranogion (celf a chrefft, dweud adrodd storïau, pabell bampro, ras gychod, sioe oleuadau, a chwaraeon) – fe welsom fwynhad mawr ym mhawb â fu'n cyfranogi yn y gweithgareddau.

Y ras gychod oedd y weithgaredd derfynol. Roedd yr holl gychod wedi ei llunio a'i hadeiladu gan y bobol ifanc.

Fe dderbyniwyd saith ffurflen adborth:

NOD	**CYRHAEDDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pawb o leiaf un eitem	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Amh.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Roedd pawb a lenwodd ffurflen yn	

	gallu enwi o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	100% yn gallu enwi o leiaf un math a ffawna yn y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	85% o'r bobol a lenwodd y ffurflen yn ymwybodol o un ffordd mae coed yn fuddiol i'r amgylchedd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 85% yn teimlo'n well am yn eu hunain	6 o 7 o'r bobol ifanc
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd 85% am wneud mwy o weithgareddau	6 o 7 o'r bobol ifanc

Hoff- *"Popeth."*
"Popeth –roedd digonedd o weithgareddau i bawb."
"Defnyddio turn.. y gemau a bareli."
"Gwneud cychod."
"Bron popeth... dawnsio yn fy mhyjamas."
"Y gwaith coed." x 2

Ddim yn hoff- *"Dim cwsg."*
"Dim byd."
"Y gofod rhwng gweithgareddau."
"Pacio'r babell."
"Diffyg gweithgareddau."

Beth a wnaethoch- *"Cadair a bat."*
"Bat pêl fas a phêl." X 2
"Cychod."
"Pin rholio a cwch ar gyfer y ras gychod."
"Cleddyf, cadair, cyllell a gwaywffon."

Ym mha ffordd ydych yn teimlo'n well am eich hyn –
"Wedi'r massage."
"cefais gyfle i ymlacio a gwneud pethau oedd o ddiddordeb i mi."
"mwy o hyder."
"ym mhob ffordd."
"synnwyr o gyrhaeddiad."

"rwyf nawr yn gallu bod yn grefftus a cefais y cyfle i wneud ffrindiau."

Yn ôl y plentyn oedd heb fwynhau ei hyn:
"doedd dim digion o bobol yno a ni chefais y cyfle i fwynhau fy hyn."

Goroesi yn y Goedwig:
Oherwydd y tywydd gwael fe fu'n rhaid gohirio'r gweithgareddau goroesi yn y coed. Roedd y rhain ar gyfer Gofalwyr hyn ac y gobaith oedd ei cynnal ar y 6ed a'r 7fed o Fedi. Fe gytunodd Martin Cope o Wasanaethau Hiraeth gynnal y gweithgareddau rhywbryd yn y dyfodol. Fe benderfynwyd cynnal y weithgaredd dros Hydref y 27ain a 28ain – bydd adroddiad llawn yn yr adroddiad nesaf.

Gofalwyr Ifanc Ceredigion:

Paratoi ar gyfer carnifal Aberaeron

Bu 12 person ifanc yn paratoi ar gyfer carnifal Aberaeron.

Yn ystod cwrs dau ddiwrnod ar Ffarm Denmarc fe wnaeth y bobol ifanc byped mawr o farcud coch a mygydau Pili-pala. Yn ogystal fe ddysgon sut i ddefnyddio poi ac fe ddysgodd y grŵp berfformiad byr ar gyfer arwain yr orymdaith.
Ar ddydd y carnifal roedd y cyfuniad o'r mygydau, pyped, y poi, a chrysau t y gofalwyr ifanc, ynghyd a'r faner liwgar yn sicr yn werth eu gweld!
Fe enillodd y criw y drydydd safle am ei hymdrechion.
Fe gyhoeddwyd llun o'r criw yn paratoi ar gyfer y carnifal yn y Cambrian News.

Fe gwblhaodd saith o'r bobol ifanc ffurflenni adborth:

NOD	CYRHAEDDIAD	SYLWADAU
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pawb o leiaf un eitem	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Fe fynychodd 50% yr holl weithgareddau. Fe fu 50% mewn 2 o'r 3 gweithgaredd	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Roedd 85% yn gallu enwi o leiaf un math o goedwn.	Ni gwblhaodd 1 cyfranogwr y gydran hyn o'r ffurflen
Cyfranogwyr yn gwybod bod	85% yn gallu enwi o	Ni gwblhaodd 1

coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	leiaf un math a ffawna yn y goedwig.	cyfranogwr y gydran hyn o'r ffurflen
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	71% o'r bobol a lenwodd y ffurflen yn ymwybodol o un ffordd mae coed yn fuddiol i'r amgylchedd.	Ni gwblhaodd 1 cyfranogwr y gydran hyn o'r ffurflen
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 85% yn teimlo'n well am ei hyn	Ni gwblhaodd 1 cyfranogwr y gydran hyn o'r ffurflen
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd 57% am wneud mwy o weithgareddau	4 allan o 7 Ni gwblhaodd 1 cyfranogwr y gydran hyn o'r ffurflen

Hoff- *"Gwneud y barcud coch." x 2*
"Chwarae a'r poi."
"Gwneud yr adenydd Pili-pala."
"Cysgu a'r cwbl."
"Y paentio a'r poi."
"Fe fwynheais y cwbl, ond chwarae a'r poi oedd y gorau."
"Darganfod dulliau i ddygymod a phroblemau."

Ddim yn hoff- *"Dim" x 3*
"Y bobol oedd yn cerdded mewn ac allan or gegin."
"Bwrw fy hyn yn fy nhrwyn."
"Y straeon ysbrydion."

Ym mha ffordd ydych yn teimlo'n well am eich hyn –
"Roedd popeth yn hwyl."
"Rwy'n fwy hyderus ac yn barod i fwynhau'n hyn."
"Hyder."
"Gallu siarad am bethau sydd yn fy mhoeni."
"Fy mod yn gallu gwneud pethau diddorol na oeddwn yn gallu ei gwneud o'r blaen."

Allbwn o'r Gweithwyr cynhaliol:
"Fe ddatblygodd hyder yn gyflym iawn mewn un neu ddau o'r gofalwyr ifanc. Roedd pawb yn ymroi ei hyn i'r gweithgareddau... Fe ddysgodd y bobol ifanc am bili pala, gwenyn, a gwenyn meirch, ynghyd a amrywiaeth o fywyd gwyllt a dulliau i'w denu, er enghraifft drwy blannu planhigion penodol."
"Roedd ymddygiad pawb yn wych drwy gydol y gweithgareddau. Roedd pawb yn frwd iawn wrth ddysgu gwneud barcud coch a pili-pala... roedd 100% o'r bobol ifanc yn dangos

mwy o hyder... dau ddiwrnod gwych. Diolch yn fawr i Tir coed a Pod a Jen. Fe fwynhaodd y bobol ifanc a'r staff yn fawr."

Goroesi yn y Goedwig, Medi 20fed a 21ain, 2008

Fe gynhaliwyd y weithgaredd hon yng Nghoedwigaeth Ffynnon, ger Boncarth. Fe arweiniwyd y gweithgareddau gan ddau hyfforddwr o ysgol coedwriaeth Dryad.
Bu wyth gofalwr ifanc yn bresennol. Fe gyflawnon weithgareddau gan gynnwys cynnau tan, adeiladu cysgod, adnabod planhigion, dulliau morwriaeth, coginio, gwneud cortyn o wreiddiau coed, gwneud cuddwisg.

NOD	CYRHAEDDIAD	SYLWADAU
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pawb o leiaf un eitem	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Roedd gan bawb gyfradd presenoldeb o 100%	Roedd yn rhaid i un fynd adref ar y noson gyntaf
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Roedd 100% yn medru enwi o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	100% yn medru enwi o leiaf un math a ffawna yn y goedwig.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	100% o'r cyfranogwyr â gwblhaodd ffurflen yn ymwybodol o un ffordd mae coed yn fuddiol i'r amgylchedd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd 100% yn teimlo'n well am ei hyn	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu	Roedd 100% am wneud mwy o	

gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	weithgareddau	

Hoffterau- *"Gwneud tan a breichled."*
"Y bwyd."
"Popeth" x 2
"Cysgu yn y crogwely."
"Cerdded yn y tywyllwch."
"Cynnau tan."
"Cysgu mewn crogwely am y tro cyntaf a dysgu sgiliau newydd."

Anhoffterau-*"Cerdded a'r crogwelyau oer."*
"Y crogwely."
"Dim byd." x 2
"Yr oerfel." x 3
"Cysgu."

Ym mha ffordd ydych yn teimlo'n well yn eich hunan –
"Cefais gysgu mewn crogwely am y tro cyntaf."
"Hyderus."
"Teimlo'n hapusach."
"Oherwydd fy mod wedi cysgu yn y coed."
"Fe ddysgais bethau newydd."
"Rwy'n teimlo'n fwy hyderus am gysgu tu allan."
"Hapus/diolchgar."

Adborth o'r Gweithwyr cynorthwyol:
"Bu rhaid i un o'r cyfranogwyr 8 mlwydd oed fynd adref yn gynnar, oherwydd ei bod ofn y coed tywyll. Ond wedi cyrraedd gartref roedd yn llawn gyffro ac yn frwdfrydig iawn yn dweud wrth ei mam faint o hwyl oedd y gweithgareddau cyn iddi dywyllu... roedd pawb yn fwy hyderus... fe fu gwellhad yn ymddygiad pawb ac roedd pawb yn ymroi i'r gweithgareddau grŵp."
"Fe fu sawl sgwrs am gynnal yr amgylchedd; fe ddysgodd y cyfranogwyr sut i adnabod adar o'i galwad yn unig. Daeth un ohonynt o hyd i Sgrech y Coed ... Roedd y gofalwyr ifanc am treulio noson arall yn y goedwig."

Adborth o'r hyfforddwr:
"Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn fwy hyderus erbyn diwedd y gweithgareddau. Roedd pawb yn ymlacio ac erbyn yr ail ddiwrnod roedd pawb yn ddigon hapus i orffwys ar bwys y tan. Grŵp dda iawn yn gyffredinol – roedd unigolion yn barod i helpu a'r holl weithgareddau, yn enwedig y coginio. Pawb yn helpu ei gilydd. Pawb yn cyfrannu; llawer y ysbryd positif."

Gofalwyr ifanc Sir Gaerfyrddin

Gweithgareddau Coedwriaeth Preswyl, 5ed & 6ed a'r 19eg & 20fed o Awst

Fe drefnwyd ddau sesiwn preswyl ar thema sgiliau awyr agored iddynt yng Nghoed Woodhouse, ger Sain Clêr ym mis Awst. Roedd y cyntaf ar gyfer pobol ifanc 13 i 18 mlwydd oed, a'r ail ar gyfer plant 6 i 12 mlwydd oed. Fe ddefnyddiodd y ddau griw ddeunyddiau gwersylla a gyflenwyd gan Tir Coed.

James Gourlay a Rik Bennett o Dryad Bushcraft a arweiniodd y weithgaredd gyntaf; roedd 11 o ofalwyr ifanc yn bresennol. Roedd hyn yn llai na'r disgwyl, ond mae'n tebyg mai'r rheswm oedd y tywydd ofnadwy trwy gydol y gweithgareddau. Er hyn, fe brofodd y grŵp sgiliau cynnau tan a choginio ar dan agored, creu cysgod a chrogwely, codi pebyll, a sgiliau trywyddu. Un anffodus mae'r ffurflenni adborth â gwblhawyd gan y criw hwn wedi cael ei colli cyn iddynt gyrraedd Tir Coed.

Bu 8 gofalwr ifanc yn bresennol ar gyfer yr ail gyfnod o weithgareddau. Mae'n debyg fod y tywydd garw drwy gydol mis Awst eto wedi cyfrannu at y niferoedd isel; ond, er fod y rhagolygon wedi addo gwynt gryf a glaw, bu tywydd braf dros y ddau ddiwrnod. Fe baratôdd y grŵp ei gwersyll a chodi ei pebyll yn gynnar yn y dydd; roedd pawb yn weithgar trwy gydol y broses ac fe gafwyd y cyfle i ymarfer sgiliau 'datrys dadl.' Wedi paratoi'r gwersyll fe arweiniodd dau o hyfforddwyr Dryad Bushcraft, Andy Price a Rik Bennett, y criw o amgylch y coed i dderbyn gwers ynglŷn a adnabod planhigion bwytadwy a meddyginiaethol. Yna, cafodd y grŵp gyfle i ddefnyddio deunyddiau naturiol i greu cuddliw ac yna i chwarae gem ddilyn a hela. Wedi hyn fe chwaraewyd gem hela arall, lle roedd un grŵp yn hela'r llall; fe gyfrannodd pawb yn frwdfrydig ac fe weithiodd y grŵp fel tîm yn effeithiol iawn. Wedi dychwelyd i'r gwersyll fe ddangoswyd ir plant sut i wneud tan, gan ddefnyddio dulliau bwa a fflint – fe fu rhai o'r bobol ifanc yn weithgar iawn yn ceision cynnau tan, ac roeddent yn falch iawn o weld ffrwyth ei hymdrechion. I ginio fe goginiodd pawb selsig dros y tan agored. Yn ystod y prynhawn fe adeiladodd pawb gysgod, ac yna fe gynhaliwyd gwers ar sut i gerfio â chyllell yn ddiogel. Roedd pawb wedi blino erbyn yr hwyr, a phawb yn eithaf hapus.

NOD	**CYRHAEDDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Cyfrannodd pawb tra'n adeiladu'r gwersyll	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Bu'r 8 yn bresennol am y ddau ddiwrnod, 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Roedd 100% (o'r 7 ffurflen a dderbyniwyd) yn gallu enwi o leiaf un math o goeden.	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	100% (o'r 7 ffurflen a dderbyniwyd) yn gallu enwi o leiaf un math a ffawna yn y goedwig.	

Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	100% (o'r 7 ffurflen a dderbyniwyd) o'r bobol a lenwodd y ffurflen yn ymwybodol o un ffordd mae coed yn fuddiol i'r amgylchedd.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	57% (4 o'r 7 ffurflen a dderbyniwyd) yn teimlo'n well am ei hyn	Roedd rhai yn flinedig dros ben tra'n llenwi'r ffurfle
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Roedd 86% (6 o'r 7 ffurflen a dderbyniwyd) am cyfranogi mewn mwy o weithgareddau wicked	

Hoffterau- *"Popeth."*
"Chwarae Gemau."
"Malws Malys"

Anhoffterau-*"Adeiladu cysgod yn y glaw."*
"Storïau arswyd"

Ym mha ffordd ydych yn teimlo'n well yn eich hunain –
"*Oherwydd fy mod nawr yn gwybod sut i fyw yn y coed."*
"Mwy o hyder."

Adborth o'r gweithwyr cynhaliol:
" Roedd pawb yn mwynhau'r gweithgareddau dros ben am wneud gweithgareddau tebyg am gyfnod hirach." - Katie Gardner

<u>Gweithdai Creu Cerddoriaeth, 12fed a 26ain o Awst</u>

Roedd thema gerddorol i'r ddau weithdy hyn, y cyntaf ar gyfer plant 6-12 mlwydd oed a'r ail ar gyfer ieuenctid 13-18 mlwydd oed. Fe arweiniodd Jo Barlow a Ben Duckworth y ddau sesiwn, ac fe'i cynhaliwyd yn Nhŷ'r Trysordy, ger Caerfyrddin. Y Bwriad gwreiddiol oedd cynnal y gweithdai mewn safle coediog, ond oherwydd cyfyngiadau teithio ar staff y gofalwyr ifanc fe ail drefnwyd y gweithdai i fod mewn safle canolog. Mae'n rhaid i Tir Coed ymchwilio safleoedd coetirol addas yn ardal Caerfyrddin.

Y criw ifanc:
Roedd 9 gofalwr ifanc yn y gweithdy cyntaf. Fe welsom enghreifftiau o offerynnau cerddorol y gellid ei gwened o bren a deunyddiau a ailgylchwyd – roedd y rhain yn

cynnwys kalimbas (Piano bys), didjeridŵ, a ffyn glaw. Fe benderfynodd y plant pa offeryn yr hoffent ei wneud, ac yna, a chymorth, hyfforddwr fe gydosodwyd yr offerynnau. Yn ystod y prynhawn fe ymarferwyd tiwnio a chwarae'r offerynnau newydd, a chware ynghyd. Fe gynhaliwyd yr hyfforddwyr ddiddordeb y bobol ifanc gan gynnig dewis o offerynnau gwahanol oedd yn gofyn am fath gwahanol o sgiliau i'w cydosod. Cynhaliwyd diddordeb pawb hefyd drwy trefnu gweithdy cerddoriaeth yn y prynhawn – roedd llawer o ddiddordeb yn Ben tra iddo chwarae'r didjeridŵ.

Yn ôl yr hyfforddwyr, mi fyddai gweithgareddau'r prynhawn wedi gweithio'n well mewn cyd destun awyr agored. Mi fyddai hyn wedi bod yn llai fel dosbarth ysgol ac wedi cynnig mwy o gyfle i ddynodiant creadigol. Methodd un o'r cyfranogwyr ifanc ganolbwyntio ar y gweithdy, ac fe ddechreuodd ymddwyn mewn modd peryglus gyda'r offer – fe dderbyniodd yr unigolyn sylw personol gan y gweithwyr cynorthwyol cyn cael ei dywys adref yn gynnar. Fe wnaed adroddiad i staff y Gofalwyr Ifanc yn nodi na ddylai'r unigolyn hwn fynychu gweithgareddau lle bydd galw i ddefnyddio offer miniog yn y dyfodol.

NOD	**CYRHAEDDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pawb o leiaf 1 eitem	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Bu 8 o 9 yn bresennol am y diwrnod cyfan = 89%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:	Oherwydd y newid yn lleoliad y weithgaredd nid oedd posib cyrraedd y targed hwn.	
Cyfranogwyr yn medru enwi'r pren yr oeddent yn defnyddio	80% (4 o'r 5 ffurflen a gwblhawyd) yn gallu enwi'r coed oeddent yn ei ddefnyddio	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	60% (3 o'r 5 ffurflen a gwblhawyd) yn teimlo'n well am ei hyn	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	100% am gemeryd rhan mewn mwy o weithgareddau wicked	

Hoffterau- *"Popeth."*
"Gwneud y Piano."
"Y Bisgedi."

Anhoffterau-*"Bodiau poenus" (wedi chwarae'r Kalimba)*

Beth wnaethoch chi?: *"4 Offeryn"*

Ym mha ffordd ydych yn teimlo'n well yn eich hunain –
"Rwy'n teimlo'n hapus"
"Dydw'i ddim mor swil."

Allbwn o'r gweithwyr cynhaliol:
"Roedd sawl u o'r cyfranogwyr yn ddiwyd iawn wrth cydosod eu hofferynnau. Roeddwn y gallu gweld yr ymdrech a'r mwynhad ar ei wynebau, ac hefyd y synnwyr o gyrhaeddiad wedi cwblhau ei tasgau." – Natalie

"Roedd y gynhaliaeth a gafwyd gan yr hyfforddwyr yn wych." – Vicky

Adborth o'r hyfforddwyr:

"Roedd diddordeb y bobol ifanc yn tyfu drwy gydol y diwrnod. Ni chawsom ei llethu gan y cymhlethdodau; roedd ganddynt ddiddordeb yn y posibiliadau creadigol oedd yn y deunyddiau." – Ben Duckworth

Y criw hŷn:
Roedd 6 gofalwr ifanc yn bresennol am yr ail gwrp, i bobol ifanc 13 i 16 mlwydd oed. Roedd yr ail weithdy yn debyg iawn ir cyntaf o ran fformat, ond roedd y grŵp hon yn gallu creu mwy o amrywiaeth o offerynnau. Fe ymlaciodd y grŵp ac fe fwynhaodd pawb y diwrnod.

NOD	**CYRHAEDDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Fe wnaeth pawb o leiaf 1 eitem	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 70% o'r amser.	Roedd pawb yn bresennol, 100%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:	Oherwydd y newid yn lleoliad y weithgaredd nid oedd posib cyrraedd y nod hwn.	
Cyfranogwyr yn medru enw'r math o bren iddynt ddefnyddio	67%% (4 o'r 6) yn gallu enwi'r pren yr oeddent yn gweithio gyda	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc		

yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	67%% (4 o'r 6) yn teimlo'n well am ei hyn.	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	83% am gyfranogi mewn mwy o weithigareddau wicked	

Hoffterau- *"Gwneud yr offerynnau ai chwarae."*
"Popeth."

Anhoffterau-*"Dim byd."*
"Gweithio'n galed efo 'mysedd."

Beth wnaethoch chi?: *"didgeridw, kalimba a croaker" x3*

Ym mha ffordd ydych yn teimlo'n well yn eich hunain –
"Cŵl."
"Ym mhob ffordd."
"Rwy'n fwy egniol."

Adborth o'r gweithwyr cynhaliol:
" Roedd XXX yn gyndyn i gyfranogi yn gynnar yn y diwrnod ac ond yn barod i rhyngweithio a'r oedolion. Ond erbyn diwedd y dydd roedd yn barod i weithio a phawb, gan rhyngweithio a chyfoedion yn ogystal a'r oedolion... Diwrnod llwyddiannus iawn... (roedd) y grŵp hyn yn fwy hyderus tra'n defnyddio'r offer a'r peiriannau." Natalie

Gofalwyr ifanc Sir Benfro:

Oherwydd gohiriadau yn y gorffennol a diffyg amser y Swyddogion Prosiect nid oes cynlluniau i gynnal mwy o weithgareddau a'r grŵp hon.

b) Menter Gweithio'r Goedwig

(Ar gyfer ieuenctid 16 i 19 mlwydd oed sydd ddim mewn addysg, swydd, nac hyfforddiant.)

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn datblygu cynllun Prentisiaeth Fodern i ddatblygu sgiliau 6 crefftwr. Gobeithiwn ddechrau'r cynlyn yn yr Hydref, 2008. Unwaith ir cynllun ddechrau, y gobaith yw sefydlu mecanwaith i alluogi mwy o hyfforddiant a chreu mwy o swyddi ar gyfer rhai o gyfranogwyr Gweithio Eich Coed. Mae Gwyneth yn gweithio a Hayley Evans o'r CC ynglŷn a'r cynllun hwn.

Powys

Fe gynhaliwyd sesiwn Gweithio Eich Coed ar Medi'r 30ain. Pwrpas y cwrs oedd addysgu sgiliau gwaith coed gwyrdd a fyddai'n galluogi cyfranogwyr i adeiladu cysgod pren yng ngardd Ponthafren, yn y Dre Newydd (canolfan ddydd iechyd meddyliol).
Roedd yr adeilad a adeiladwyd yn achrededig gan y Rhwydwaith Coleg Agored.
Bydd dadansoddiad ac adborth yn adroddiad y chwarter nesaf.

Ceredigion

Bydd prosiect Gweithio'r Goedwig Ceredigion yn cael ei gynnal mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Tywysog fel rhan o'i phrosiectau cymuned. Bydd Tir Coed yn darparu gweithgareddau ar gyfer wythnosau 3, 4, a, 5 o'r rhaglen. Y cynllun yw datblygu gardd fywyd gwyllt yng Nghanolfan Gweithgareddau Cymdeithasol Aberystwyth (canolfan ar gyfer oedolion ag anawsterau dysgu), gan ddefnyddio coed a deunyddiau naturiol eraill i greu llwybr i'r synhwyrau. Mi fydd y bobol ifanc sy'n cyfranogi yn trafod a'r bobol fydd yn defnyddio'r adnodd cyn mynd ati i'w gynllunio ac adeiladu.

Sir Benfro

Bu sesiynau Gweithio'r Goedwig yn Sir Benfro yn rhedeg rhwng Mehefin y 25ain a Gorffennaf yr 17eg. Cyfranogodd wyth person ifanc yn y gweithgareddau. Fe fu Dave Hoyle a Kathy Gray yn allweddol i'r prosiect, trwy gynnig cynhaliaeth, mynychu'r gweithgareddau a'r bobol ifanc, a delio a phroblemau wrth iddynt ddatblygu. Bu perfformiad Dave yn wych eto, ac rydyn yn ffodus iawn i gael Kathy; mae ei swydd wedi ei ariannu'n rhannol gan y Gymdeithas Gymunedol Mwnt. Fe drefnwyd y sesiynau fel a ganlyn:

- 10 diwrnod o Adeiladu yn y gymuned (yn achrededig gan OCN)
- 2 ddiwrnod o weithgynhyrchu a choed
- 2 ddiwrnod o sialens goroesi dros nos

Adeiladu Cymunedol

Amcan y prosiect hwn oedd adeiladu ystafell baned o bren a stordy offer ar gyfer gwirfoddolwyr ac ymwelwyr i Brosiect Gardd Gymunedol Mwnt, ar fferm Carreg Wen. Sail cynllun y gysgodfa oedd ffrâm gron 12-troedfedd a tho twrch, yn ogystal a storfa offer oedd yn gysylltiedig ir strwythur. Fe gynhaliwyd y gweithdy ar Fferm Carreg Wen, Llanstadwell, ger Aberdaugleddau, ac fe'i arweiniwyd gan Jo Barlow a Stefan Proszynski. Roedd yr 8 cyfranogwr rhwng 16 ac 20 mlwydd oed ac nid oeddent mewn addysg, gwaith, na hyfforddiant. Fe gyfeiriwyd yr ieuenctid i'r rhaglen drwy amryw o sefydliadau, gan gynnwys Gyrfaoedd Cymru, Cysylltiadau Gwyrdd, a chysylltiadau personol un o'r hyfforddwyr. Roedd amrywiad mawr yn lefel sgiliau y cyfranogwyr, o ambell un oedd wedi profi gwaith coed yn y gorffennol i rai oedd erioed wedi defnyddio llif o'r blaen. Fe gofrestrwyd pob cyfranogwr ar gwrs lefel un y Rhwydwaith Coleg Agored (OCN) 'Adeiladu lloches bren sylfaenol'; Becky oedd yr dilysydd mewnol.

Roedd hwn yn brosiect uchelgeisiol dros ben, ac fe weithiodd y cyfranogwyr yn galed o'r dechrau, gan ddysgu technegau gwaith coed diogel a sgiliau trin coed. Roed y rhai mwy

profiadol yn barod i rannu ei profiad ac arwain y rhai llai profiadol. Roedd hyn yn creu dynameg positif ddeublyg yn y criw: helpu'r rhai llau galluog a chynyddu hyder y rhai oedd yn hyfforddi. Fe ddatblygwyd atmosffer grŵp cyfforddus ac agos – bu llawer o'r datblygiad yn digwydd o gwmpas y tân agored yn ystod y toriadau te a chinio (toriadau a ddaeth yn fyrrach wrth i'r amser oedd yn weddill i gwblhau'r prosiect ddirwyn i ben). Fe ddaeth un gwr ifanc a chawl cartref i rannu a'r grŵp. Wrth i'r prosiect ddatblygu fe fu'n rhaid adeiladu wal gerrig sychion a draen carreg. Fe ymgymerodd un o'r cyfranogwyr a'r rôl hon yn frwdfrydig iawn ac fe ddatblygodd sgil newydd. Fe gynhaliwyd lefel uchel o frwdfrydedd er y cawodydd cyson. Roedd ymroddiad yr hyfforddwyr a'r Gweithwyr Cynhaliol yn allweddol i gynnal y brwdfrydedd hyn, ac erbyn terfyn y prosiect roedd dynameg y grŵp yn ardderchog.

Barn dilysydd allanol y RhCA a ymwelodd â'r prosiect oedd:
"Fod cofnodion asesu a dilyniant yn ardderchog, a bod tystiolaeth o gynllunio diwyd gan yr arolygydd mewnol." Yn ogystal, fe awgrymodd yr arolygwr allanol y dylai Tir Coed ystyried cynnig yr uned hon ar lefel OCN 1 a 2, gan fod safon gwaith nifer o'r cyfranogwyr yn amlwg dros safon lefel 1; fe fydd Tir Coed yn gweithredu ar yr awgrym hwn.

Adborth:

Yr ieuenctid:

Hoffterau - *"Dysgu sgiliau newydd a datblygu'r sgiliau sydd gennyf yn barod."*
"Adeiladu rhywbeth, roedd yn edrych yn arbennig wedi i gwblhau."
"Dysgu am ddulliau adeiladu traddodiadol."
"Fod yn rhannol gyfrifol am gynllunio'r adeilad."
"Gweithio efo pobol dalentog fel Jo a Stephan. Fe fwynheais hefyd weithio fel ran o grŵp."
"Y staff oedd yn gweithio ar y prosiect."

Anhoffterau – *"Y glaw a'r mwd." x 5*

Beth ddysgais i? *"Sut i wneud pegiau pren ac adeiladu wal gerrig sychion."*
"Sut i ddefnyddio offer yn ddiogel."
"Llawer o sgiliau defnyddiol dydd i ddydd a syt i weithio'n effeithiol a phobol eraill oedd yn go uchel ei cloch. Fe adeiladais lantern-het ar gyfer to'r adeilad."
"Sut i gerfio a chyn a gordd ac ynglŷn a rhinweddau mathau gwahanol o goed."

Adborth o'r gweithwyr cynorthwyol:
" Roedd yn wych gweld hyder A yn tyfu drwy gydol y weithgaredd, yn ogystal a'r ffaith ei fod yn amlwg yn mwynhau'r gwaith...Roedd yn ysbrydoliaeth i weddill y grŵp."

"Roedd aeddfedrwydd M, ar ffaith ei fod yn gydwybodol am y bobol o'i amgylch, yn ysbrydoliaeth i weddill ei grŵp ac yn ei gyrru i weithio'n galetach. Roedd hyn yn fuddiol iawn i aelodau ifanc y grŵp, gan ei fod yn fodlon gynnig arweiniad a chymorth bryd bynnag oedd ei angen."

"Roedd yn amlwg fod mwynhad C yn tyfu wrth i'r gweithgareddau ddatblygu. Hefyd, wrth iddi gael profiad o ddefnyddio'r offer ac wrth iddi ddatblygu perthynas a phawb arall yn y grŵp fe ddatblygodd ei hyder mewn modd positif dros ben."

- Dave Hoyle

Hyfforddwr:
"Erbyn diwedd y cwrs roedd yn anodd ei hatal (y bobol ifanc) rhag gweithio, hyd yn oed i gymryd toriad..." – Jo Barlow.

Gweithgynhyrchu Pren:

Fe gynhaliwyd gweithdy ar weithgynhyrchu gan ddefnyddio pren ar yr 11eg ar 12fed diwrnod o'r rhaglen 14eg. Cynhaliwyd y gweithdy ynn ngweithdy coed Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn Cilrhedyn, ac e arweiniwyd y cyfranogion gan 3 aelod o staff Cilrhedyn. Fe tywyswyd y bobol ifanc o amgylch y safle a rhoi gwers iddynt ar ddefnyddio'r offer yn ddiogel cyn iddynt ddechrau gweithio ar wneud cadeiriau. Fe fwynhaodd y rhan fwyaf o'r cyfranogion wneud y cadeiriau, ond gan fod lefel gallu'r rhan fwyaf ohonynt yn go uchel rodd hon yn dasg cymharol rwydd iddynt, ac fe gwblhawyd yn gyflym. Ar yr ail ddiwrnod fe ganolbwyntiodd y criw ar weithgareddau dydd i ddydd Cilrhedyn, megis gwneud arwyddion a giatiau, a melino coed. Mi ymatebodd y bobol ifanc yn bositif i'r tasgau ac fe gyflawnwyd llawer yn yr amser oedd yn weddill.

Ar ail ddiwrnod y gweithdy fe ymwelodd swyddog o Yrfaoedd Cymru â'r prosiect i sgwrsio'n unigol gyda'r cyfranogwyr ac i drafod strategaethau datblygu gyrfa. Mae Trosolwg o ddilyniant y cyfweliadau hyn i'w weld isod. Roedd staff Cilrhedyn yn hapus iawn a safon y sgiliau a pharodrwydd y bobl ifanc i weithio, roeddent hyn yn oed yn meddwol derbyn cwpwl ohonynt i fod yn prentisiaid.

Adborth:

Yr Ieuenctid

Hoffterau – *"Gwneud yr arwydd gan ddefnyddio'r plaen dyfnder."*
"Helpu a melino'r coed derw – roedd y felin goed yn go anhygoel."

Anhoffterau - *"Roedd llawer o'r gweithdy yn go ddiflas."*
"Dim byd" x 3
"Faint o bren oedd yn cael ei wastraffu."

Beth greais i a beth ddysgais i?- *"Mi wnes i iat a chadair."*
"Mi weithiais yn y felin goed gan symud y pren gwastraff, ac fe adeiladais arwydd gan ddefnyddio'r plaen dyfnder – mi ddysgais sut i ddefnyddio'r plaen dyfnder."

Sialens Goroesi:

Fe drefnwyd sialens goroesi ar gyfer dau ddiwrnod olaf sesiynau blas Gweithio Eich coed. Fe arweiniodd Andy Price o *Dryad Byshcraft* y sesiwn dros nos, ac fe gynhaliwyd y sesiwn yn nghoedwigaeth Woodhouse, ger Sain Clêr. Fe adeiladodd yr ieuenctid wersyll, fe ymarferon sgiliau trywyddu, chwilota, a chreu tan gan ddefnyddio bwa a dril a challestr –

fe fwynhaodd yr ieuenctidy profiad dros ben. Roedd yr sesiwn drôn nos yn terfyn gwych i brosiect llwyddiannus dros ben, ar sawl lefel.

Adborth

Yr Ieuenctid:

Hoffterau – *"Popeth"*
"Y cwbl"
"Roed gwersylla yn y coed yn wych, a hefyd dysgu sut i gynnau tan a dulliau traddodiadol."

Anhoffterau – *"dim byd"* x 2
"yr oerfel yn ystod y nosweithiau."
"ni gawsom y cyfle i hela ein bwyd ein hyn"

Beth greais i a beth ddysgais i?*"Chwiban a sut i ddefnyddio cyllell"*
"llwy bren o goeden sycamorwydden"

Adborth o'r gweithwyr cynorthwyol:
"Roed H yn delio a'r tasgau yn frwdfrydig ac egnïol... dangosodd lawer o amynedd tra'n cwblhau sialens yr oedd wedi ei osod i'w hyn. Esiampl dda o hyn oedd ei lwyddiant a'i amynedd tra'n meistroli'r dril bwa a tra iddo ddysgu sut i gynnau tan a bwa."

- Dave Hoyle

Adborth o'r Hyfforddwr:
"Roedd y grŵp yn fodel o'r math o grŵp a fyddai'n elwa o'r math hyn o brofiad. Roedd y grŵp yn ddiwyd yn gwrando i gyfarwyddyd cyn iddynt geisio defnyddio'r offer a'r sgiliau ei hunain. Canlyniad hyn oedd llawer o gynhyrchion gwych. Fe ddangosodd pawb fod ganddynt y gallu i weithio yn effeithiol fel tîm."

- Andy price

NOD	**CYRHAEDDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw	Cynhyrchodd pawb sawl eitem	
70% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol o leiaf 70% o'r amser.	83% yn bresennol ar gyfartaledd 88% o'r cyfranogwyr yn bresennol am 90% o'r amser	3 yno am 100% Bu un o'r cyfranogwyr yno am 5 o'r 14 diwrnod oherwydd sefyllfa ansefydlog yn y cartref
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		

Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Roedd pawb yn medru enwi sawl math	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Roedd pawb yn gallu enwi o leiaf un.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	100% yn deall un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhad yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Roedd pawb yn teimlo'n hapusach	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	100% am brofi mwy o weithgareddau coedwig	
Cynyddu sgiliau er mwyn cynyddu cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc		
O leiaf 60% o gyfranogwyr yn derbyn achrediad	Fe enillodd yr holl gyfranogion gymhwyster OCN lefel 1	
O leiaf 60% o gyfranogwyr yn dangos agwedd bositif ar ddatblygiaeth gyrfa	Oedd, roed yr holl gyfranogion yn bresennol am 835 o'r weithgaredd	
Mae o leiaf 25% o'r cyfranogwyr yn mynd ymlaen i hyfforddiant pellach neu swydd	Mae diddordeb gan bob un mewn gwaith coed	

Ym mha ffyrdd ydych yn teimlo'n well am eich hyn wedi profi'r gweithgareddau?

"Adrenalin wedi gweld ffrwyth ein llafur."
"Gwybod sut i adeiladu tŷ-crwn" x 2
"Wedi datblygu fy sgiliau gwaith coed gwyrdd."
"rwyf wedi dysgu parchu barn pobl eraill a chymryd sylw o'i teimladau."

Datblygiaeth gyrfa:

1. Roedd diddordeb gan gyfranogwr a mewn gwaith awyr agored. Mae hi wedi cael ei chyfeirio at Adran Hyfforddi Cyngor Sir Benfro i'w pharatoi ar gyfer cwrs *Skillbuild*.

Mae Becky wedi ymchwilio'r posibilrwydd o brofiad gwaith gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Stackpole.

2. Fe ddechreuodd cyfranogwr B swydd rhan amser yn McDonald's tra'n mynychu'r y cwrs. Yn ystod ei gyfweliad gyda Gyrfaoedd Cymru fe fynegodd ddiddordeb mewn amryw o yrfaoedd, gan gynnwys drama, weldio a gwaith ar y tir. Mynegodd y bwriad i astudio drama yn y coleg, ond mae'n annhebygol iddo ennill y 3 TGAU sydd yn angenrheidiol iddo gael ei dderbyn i'r cwrs. Roedd y Swyddog Gyrfaoedd Cymru yn bwriadu ymchwilio cwrs hyfforddiant yn y gweithle mewn weldio i'r cyfranogwr yng Ngholeg Sir Benfro, ond mae'r cyfranogwr yn gwneud yn dda iawn yn ei swydd rhan amser, ac mae wedi cael cynnig dyrchafiad – dymunwn bob lwc iddo yn y dyfodol.
3. Fe symudodd cyfranogwr C i Loegr wedi'r prosiect. Ni fu hyn yn lwyddiant ac yn y cyfamser mae wedi symud yn ôl i Sir Benfro. Fe gysylltodd cyfranogwr C a tir Coed yn gofyn am gyngor ynglŷn a datblygu gyrfa. Fe lwyddodd Becky gael lle iddo ar gwrs cadwraeth amgylcheddol NVQ lefel 2 yng Ngholeg Sir Benfro. Fe dywyswyd y cyfranogwr i'r gyfweliad gan Dave Hoyle; roedd y coleg yn hapus â'i berfformiad, ac er fod y cwrs wedi cychwyn fe gynigwyd lle iddo.
4. Mae cyfranogwr D yn byw yn Llundain, fe fu'n rhan o'r cwrs oherwydd ei fod yn cymryd rhan mewn cyfnod o brofiad gwaith gydag un o'r hyfforddwyr. Eto'i gyd, fe fu'r cwrs o fudd arwyddocaol iawn ir cyfranogwr hwn. Fe'i addysgwyd gartref ac roedd y cwrs yn gyfle iddo ddysgu sgiliau newydd ac hefyd i gymdeithasu a'i gyfoedion.
5. Bu cyfranogwr E yn symud o un swydd rhan amser i'r llall – nid yw oedd erioed wedi hawlio arian lles cymdeithasol. Mae ganddo brofiad o sawl cwrs a gyrfa, (gan gynnwys plymio, prentisiaeth a chyngor Sir Benfro, a cwrs arlwyaeth yn y coleg) ond nid ydyw erioed wedi llwyddo i aros yn ddigon hir i ennill cymhwyster. Ei amcan yw arwain busnes a fyddai'n adeiladu strwythurau pren, ond, er fod ganddo'r sgiliau i gyflawni hyn, nid oes ganddo'r gynhaliaeth ariannol na chymdeithasol y gyflawni hyn. Roedd y person hwn yn un o'r ddau a ddaeth i sylw'r staff ynn nghanolfan Cilrhedyn fel person oedd yn addas i ddilyn prentisiaeth yn y Ganolfan. Fe ymchwiliodd Becky gynllun NVQ achrededig a arweinir gan *Construction Skills.* Ond, yn anffodus, nid oedd Cilrhedyn yn gallu ceisio am grant gan *Construction Skills*, a nid yw Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (sydd yn berchen ar Cilrhedyn) yn gallu dygymod a'r faich ariannol i gynnal prentis. Yn anffodus, mae cyfranogwr E yn rhy hen i geision am brofiad gwaith *Skillbuild* a, gan ei fod erioed wedi hawlio budd-daliadau, ac felly ddim yn cael ei adnabod fel unigolyn di-waith hirdymor - does dim opsiwn *New Deal* iddo. Mae Becky wedi ysgrifennu ato i awgrymu syniadau a opsiynau gyrfa, gan gynnwys sefydlu busnes mewn iard goed ger Pendine (cynllun fyddai'n golygu adleoli.)
6. Roedd cyfranogwr F yn fedrus dros ben, ac roedd Cilrhedyn yn awyddus iddo ddilyn prentisiaeth. Yn anffodus, ni lwyddodd Becky sicrhau lle iddo (gweler uchod), ond mae hi yn ymchwilio'r posibilrwydd a gael lleoliad *Skillbuild* iddo.
7. Mae cyfranogwr G wedi ail ddechrau cwrs lefel-A yn y coleg. Cyn dechrau'r cwrs Gweithio'r Goedwig roedd y cyfranogwr hwn wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w astudiaethau, ond yn awr mae wedi penderfynu mai cwblhau'r cwrs fydd yr opsiwn gorau.
8. Nid oedd cyfranogwr H yn bresennol yn ystod y cyfweliadau. Mae'r gŵr ifanc hwn wedi dangos llawer o botensial, ac mae Becky wedi anfon llythyr ato yn ei annog i gysylltu â hi am gymorth i ddewis gyrfa, ond nid yw wedi ymateb hyd yn hyn.

Sir Gaerfyrddin:

Cynhaliwyd sesiynau blas Gweithio Eich Coed Sir Gaerfyrddin rhwng y 3ydd o Fehefin a'r 26ain o Fehefin. Roedd 6 person ifanc yn bresennol. Roedd manylion ynglŷn a'r cwrs yn yr adroddiad chwarterol diwethaf. Fe fanylir y datblygiadau sydd wedi digwydd ers hyn isod.:

Datblygu gyrfa:

1. Roedd cyfranogwr a eisoes wedi cwblhau cwrs paratoi ar gyfer y fyddin cyn ymuno a'r cynllun Gweithio Eich Coed. Ond, oherwydd anaf, cafodd anhawster yn pasio'r cwrs corfforol oedd yn angenrheidiol er mwyn iddo gael ei dderbyn ir fyddin. Ers hynny mae'r gwr wedi cael ei dderbyn – dymunwn y gorau iddo am y dyfodol.
2. Roedd diddordeb gan gyfranogwr B yn y fyddin- unai'r yn y fyddin, y Môr Filwyr, neu yn nyrsio. Gyda chymorth Nicola Evans o Yrfaoedd Cymru fe drefnwyd cyfweliad iddi hi ar gyfer cwrs paratoi ir fyddin, fe ymunodd a'r cwrs ynystod mis Awst.
3. Roedd cyfranogwr c wedi cofrestru ar gwrs gofal anifeiliaid gyda Choleg Sir Gar, hyd y cwrs oedd 3 mlynedd. Roedd ganddi ddiddordeb mewn gwaith gwirfoddol yn yr haf cyn i'r cwrs gychwyn. Fe geisiodd Becky ac Angie trefnu lle iddi a'r Ymddiriedolaeth Gwlypdiroedd a sawl elusen oedd yn gweithio ac anifeiliaid; yn anffodus ni fuom yn llwyddiannus, yn rhannol oherwydd fod llawer o fyfyrwyr hefyd yn ceisio am brofiad gwaith dros fisoedd yr haf.
4. Roedd cyfranogwr D hefyd am ymuno â'r fyddin, y llu logisteg yn benodol. Nid oedd y cwrs paratoi ar gyfer y fyddin yn gallu ei dderbyn yn syth, ac yn y cyfamser fe gofrestrodd a chwrs hyfforddi yng Ngholeg Sir Gar – ei fwriad oedd dilyn cwrs *Skillbuild* i ddatblygu sgiliau saer. Fe gysylltodd Becky a'r coleg i geisio trefnu lle iddo yng nghynllun *Foothold,* ond yn anffodus ni fynychodd y person ei gyfweliad cyntaf a'r hyfforddwr.
5. Roedd cyfranogwr E wedi cofrestr a chwrs yng Ngholeg Rhydaman oedd fod i ddechrau mis Medi; roedd diddordeb ganddo mewn gweithio a cheffylau. Roedd diddordeb gan y cyfranogwr hwn mewn mynychu cwrs S*killbuild* dros yr haf, ar gyfer y profiad ac i'w gadw'n brysur. Fe geisiodd Swyddog gyrfaoedd gadw mewn cysylltiad ac ef, ond oherwydd ei sefyllfa gartref anodd nid oedd yn gallu mynychu'r profiad gwaith.

Gwaith Pren Irlas gyda Gwasanaeth Ieuenctid, Mynydd Mawr

Trefnwyd y gweithdy hwn mewn partneriaeth a chynlyn NEETS (ddim mewn addysg, gwaith, na hyfforddiant) gwasanaeth Ieuenctid Sir Gaerfyrddin, fel rhan o'r prosiect gweithgareddau'r haf. Roedd yn gwrs dau ddiwrnod mewn gwaith coed gwyrdd ym mharc Mynydd Mawr. Fe gynllwynwyd y gweithdy ar gyfer 8 person, ond dim ond 8 oedd yn bresennol ar y diwrnod cyntaf. Fe arweiniwyd y grŵp gan Tony Eames a Jamie Miller, ac fe gynigwyd hyfforddiant iddynt ar defnyddio tyrn, cerfio llwy , a gwneud byrddau bach a basgedi o helyg. Fe ymatebodd 2 o'r 4 cyfranogwr yn bositif dros ben i'r hyfforddiant, gan greu eitemau i ddychwelyd gartref a hwynt. Yn anffodus, ni fynychodd unrhyw un o'r cyfranogwyr ar yr ail ddiwrnod. Oherwydd yr absenoldeb nid oedd yn bosib casglu adborth gan y bobl ifanc. Ni fydd Becky yn gweithio gyda'r criw hyn eto, oni bai bod yna raglen fwy strwythuredig a bod galw pendant am y math hyn o weithgareddau ymysg y bobl ifanc.

Adborth gan y Gweithiwr Cynorthwyol:

"Roedd ein methiant i drefnu criw ar gyfer yr ail ddiwrnod yn anffodus iawn, ond roedd sawl ffactor yn gyfrifol am hyn ac nid oedd un ohonynt yn berthnasol i'r gweithgareddau na'r staff oedd yn eu darparu...Wedi dadansoddi'r rhaglen a'r bobol ifanc fe gawsom lawer o sylwadau positif ynglŷn a'r gweithgareddau a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt." – Mike Williams

C) Menter Coed Call
(Ar gyfer ieuenctid 14-16 mlwydd oed sydd wedi, neu mewn perygl o, gael eu heithrio o'r ysgol.)

Powys

Fe drefnwyd dwy weithgaredd Coed Call ym Mhowys ar ddiwedd mis Medi:

a) Un prosiect yng Nghoed Allt Goch, sydd yn ddarn o dir cymunedol dan reolaeth Cyngor y Dref, a 11 o blant o Ysgol Llanidloes. Fe arweiniwyd y grŵp gan ddau weithiwr ieuenctid.
   Hyd yn hyn mae'r grŵp wedi mynychu gweithgareddau:
   -gwneud cambrennau pren ar gyfer ei ystafelloedd gwely,
   -paratoi ardal wersylla yn y coed, ac
   -adnabod adar.
   Cyn diwedd tymor yr ysgol mi fydd y criw yn mynychu gweithdai adeiladu tai adar ar gyfer y coed, yn ogystal a gweithio a swyddog lleol Coed Cymru, sy'n gyfrifol am raglen rheoli'r goedwig, i ddechrau rheoli rhywogaethau estron.

b) Prosiect yng Nghoedwig Mathrafal, darn o dir a reolir gan y Comisiwn Coedwigaeth, a grŵp o 9 o ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion. Fe arweiniwyd y grŵp gan ddau weithiwr ieuenctid.
   Hyd yn hyn mae'r grŵp wedi mynychu gweithgareddau:
   -paratoi ardal wersylla, gan gynnwys cylch o foncyffion,
   -Adeiladu bender yn loches,
   -Gwneud meinciau ar gyfer ardal ardd yr ysgol,
   -dysgu sut i gynnau a rheoli tan.

Mae'r ddau griw yn anelu am Wobr Dug Caeredin.
Y brif broblem gyda'r ddau weithgaredd uchod yw fod Rheolwr Lein y Gweithwyr Ieuenctid sy'n ymwneud a'r prosiect ddim yn fodlon iddynt arwain y grwpiau mewn gweithgareddau sydd yn galw am ddefnyddio offer miniog, oherwydd materion yn ymwneud a yswiriant. Mae Tir Coed yn defnyddio Hyfforddwyr contract mor aml a sydd yn bosibl i weithio a'r ddwy grŵp; ond, nid yw'r sefyllfa hon y gynaliadwy yn yr hir dymor.
Bydd adroddiad ar gynnydd y prosiect, gan gynnwys adborth gan y cyfranogwyr, yn yr adroddiad chwarterol nesaf.

Ceredigion:

Pen yr Allt:

Fe gychwynnodd y prosiect hwn ym mis Medi. Eto'i gyd, nid yw'r amser byr mae'r prosiect wedi bod yn weithredol wedi lleihau diddordeb y bobol ifanc sydd wedi ei brofi.
Mae'r ddwy weithgaredd gychwynnol wedi ei haddasu ychydig ers ir cynllun gwreiddio gael ei drafod, mae gweithgareddau coedwigaeth a gwledig yn cael ei cynnal gan Ben Gray, sydd yn goediwr lleol, ar ddyddiau Iau. Mae'r sesiynau addysg tu allan, bwyd a thanwydd, yn cael ei cynnal ar ddyddiau Gwener, ac yn cael ei harwain gan Heather Summers.
Mae grŵp gyson o gyfranogion wedi mynychu'r ddwy sesiwn, ac mae pawb wedi ymateb yn bositif iawn hyd yn hyn.

Rheoli coed a chefn gwlad
Mae cyfanswm o 5 person ifanc wedi ymuno â Ben mewn siwrnai cyffroes i ddysgu am goed, gwaith coed traddodiadol, sgiliau cefn gwlad, a'r manteision o weithio mewn amgylchedd goediog. Mae'r rhaglen wedi ei gynllunio i gynnig dilyniant o weithgareddau'r hanner tymor blaenorol – yr amcan yw cynnig cyfle i unigolion ddatblygu darlun cyflawn o'r gweithgareddau sydd ar gael.
Amcan gweithgareddau'r hanner tymor cyntaf yw datblygu adnabyddiaeth o'r safle a chynyddu hyder yr ieuenctid wrth adnabod coed a defnyddio offer llaw yn ddiogel. Mae'r bobl ifanc eisoes wedi defnyddio'r sgiliau i adnabod coed gwahanol a phlannu coedlan fach i gael blas ar sgiliau rheoli coedwigaeth.
Maer' cyfranogwyr wedi dangos llawer o frwdfrydedd a'r gobaith yw datblygu hyn fel ei bod yn dilyn y broses o blannu y coed, i'w cynhaeafu, i greu rhywbeth o'r pren – gan ennill cymhwyster gwerthfawr yn y broses.

Dysgu yn yr awyr agored: Bwyd a Thanwydd
Mae 5 person yng nghriw Dydd Gwener. Maent wedi bod yn astudio gwahanol ddulliau o goginio yn yr awyr agored. Nid yw'r uned hon yn gysylltiedig yn uniongyrchol â rhai eraill, ond mae'n cynnig lles amlwg i unigolion sydd yn ymwneud a gweithgareddau awyr agored.
Amcan y cwrs yw ehangu gwybodaeth yr ieuenctid drwy ei cyflwyno i nifer o ddulliau gwahanol o goginio ynghyd â ffeithiau am lendid, creu prydau cytbwys, a'r berthynas rhwng mathau penodol o fwyd a lefelau egni tra'n cyflawni gweithgareddau awyr agored.
Y gobaith yw datblygu hyder yn y bobol ifanc wrth iddynt cynllunio a pharatoi bwyd, yn ogystal a gwybodaeth ynglŷn â choginio diogel a mwynhad yn yr awyr agored.
Hyd yn hyn, mae'r bobl ifanc wedi ymateb yn bositif i'r cwrs, gan ddangos diddordeb yn y dulliau gwahanol; mae'n ymddangos ei bod yn mwynhau'r profiad.
Bydd adroddiad cyflawn o'r gweithgareddau a gynhaliwyd ym mhen yr Allt yn yr adroddiad chwarter blwyddyn nesaf.

Coed Bryn Derwen:
Fel nodwyd yn yr adroddiad diwethaf, bu problemau ynglŷn â mynediad i'r safle hwn oherwydd agwedd y perchennog. Felly, fe benderfynwyd symud y prosiect i goedlan arall o fis Medi (fe fuom yn gweithio'n agos gyda NEETiau – ddim mewn swydd, ysgol, na hyfforddiant – yn ystod y broses hon).
Un posibilrwydd oedd coedlan ger Llandysul, sy'n rhan o berchnogaeth Coed Cadw, ond oherwydd bod cyfyngiadau ar hawl y criw i gynnau tân, neu gweithio'n agos i'r llwybr, penderfynwyd nad oedd yr opsiwn hyn yn addas.

Wedi hyn fe ddarganfyddodd Steve Parkin, arweinydd y grŵp, goedlan breifat mwy addas i gynnal y gweithgareddau. Ar y foment mae Steve yn parhau i aros am gadarnhad bod arian ar gael i'w gyflogi i arwain grwpiau o Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Un anffodus, os nad oes cadarnhad bod yr arian ar gael nid oes posib cynnal y weithgaredd. Trueni o'r mwyaf fyddai hyn; mae 10 person ifanc yn aros i'r prosiect gychwyn.

Sir Gaerfyrddin:

Coed Woodhouse

Yn anffodus nid oes un o'r ddwy ysgol sydd fel arfer yn cyfrannu i'r prosiect (Bro Myrddin ac Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elisabeth) wedi anfon disgyblion eleni. Fynychaf fe gyfeirir pobol i'r prosiect gan y Gweithwyr Ieuenctid sydd wedi bod yn gyfrifol am ei arwain. Mae'n debyg fod yna amryw o resymau am y prinder diddordeb eleni: trefnu dydd sy'n gyfleus i'r bobol ifanc; anawsterau cyfathrebu rhwng y Gweithwyr Ieuenctid a staff yr ysgolion; diffyg cymwysterau ymysg y criw a gyfranogodd yn y prosiect y flwyddyn ddiwethaf (oherwydd newidiadau i staff a chyfeiriadau i'r prosiect drwy gydol y flwyddyn). Mae Tir coed wedi hyfforddi 5 Gweithiwr Ieuenctid i arwain prosiect Coed Call, mae safle gwych ar gael, set lawn o offer i'w defnyddio, a hyd yn oed turn newydd – ond does dim cyfranogwyr. Mae Becky wedi ysgrifennu at reolwr y Gweithwyr Ieuenctid sydd yn ymwneud â'r prosiect i geisio datrys y sefyllfa.

Mynydd Mawrth

Fe ddechreuodd prosiect newydd Coed Call ym Mharc Coed Mynydd Mawr ar y 25ain o Fedi. Fe arweinir y prosiect hwn gan ddau Gynorthwywr Addysg (LSA), Tony James a Paul Emms, o ganolfan Addysg Pwll, ger Llanelli. Mae'r mwyafrif o'r cyfranogwyr wedi cael eu cyfeirio o'r Ysgolion lleol. Nid oes llawer o ieuenctid wedi cael eu cyfeirio i'r uned hon eto – dim ond 3 oedd yn bresennol yn ystod y sesiwn gyntaf – ond rydym yn disgwyl mwy yn ystod y tymor. Fe ddechreuodd y sesiwn gyda chyflwyniad i'r safle a gwers ar sut i ddefnyddio'r tegell Kelly i wneud siocled poeth (bydd hon yn weithgaredd boblogaidd).

Mae warden y parc yn cynnig cymorth ymarferol i'r LSA. Mae gan Dewi Wagstaff, sydd yn gweithio i Gyngor Sir Caerfyrddin, amryw o sgiliau y gellid eu dysgu i'r bobl ifanc, megis gwaith saer a sgiliau rheoli tiriogaeth. Yn ogystal â sgiliau cyffredinol rheoli tiriogaeth, mae cynlluniau mawr ar y gweill ar gyfer y grŵp hon, gan gynnwys adnewyddu'r ardal tan ac eistedd, cynhaeafu helyg a cherflunio, adeiladu llwybr cerfluniau, adeiladu cuddfan wylio adar, creu coedlan a golosg, ac adeiladu gweithle dan do.

Sir Benfro

Coedwig Cyswllt Gwyrdd & Chanolfan Ieuenctid Dinbych y Pysgod

Mae'r prosiect Coed Call wedi cychwyn eto eleni. Fe arweinir y prosiect gan Anthony Harris, sydd wedi gwella wedi'r anaf cefn a ddioddefodd yn ystod yr haf blaenorol, ac mae ganddo gydweithiwr newydd, Melody. Mae'r holl gyfranogwyr yn newydd i'r gweithgareddau; mae pob un o'r criw blaenorol wedi symud ymlaen i weithgareddau eraill. Mae'r 6 cyfranogwr yn mynychu Ysgol Penfro; maent oll rhwng 13 a 16 mlwydd oed, ac mae ganddynt oll anghenion arbennig. Yn flaenorol fe gynhaliwyd y prosiect hwn am ddiwrnod cyfan bob wythnos, ond oherwydd ei bod yn anodd amserlennu'r gweithgareddau ar gyfer un prynhawn, mae'r criw Coed Call yn cyfarfod ar foreau Iau yn unig – eto'i gyd, pan mae gweithwyr allanol yn cynorthwyo a'r gweithgareddau mi fydd y sesiynau yn para drwy'r dydd. Mae sesiynau yn cael ei cynnal yng Nghoed Green Links ac

yr wythnos ddilynol maent unai yng nghanolfan Ieuenctid Dinbych neu ar dir comin Cilgeti. Fe gynhaliwyd y sesiwn gyntaf ar 18fed o fedi, a chyflwyniad i'r canolfan ieuenctid. Roedd yr ail sesiwn yng Nghoed Green Links, lle bu'r cyfranogion yn fforio'r goedwig ac yn dysgu am ddiogelwch tra'n cynnu tan. Uchafbwynt y sesiwn oedd gwneud pop-corn dros y tan.

Mae pob un o'r bobol ifanc wedi cael ei enwebi am wobr John Muir – gwobr amgylcheddol sydd wedi ei ffocysu ar safleoedd gwyllt ac sy'n hybu ymwybyddiaeth a chael cyfrifoldeb dros yr amgylchedd. Mae Anthony wedi sicrhau cytundeb gyda grŵp Gymunedol Comin Cilgeti i sicrhau mynediad a chyfle i reoli a gwarchod yr helyg sydd wedi eu plannu dros safle eang ar y comin. Mi fydd hwn yn gyfle arbennig i'r ieuenctid ar y comin. Bwriedir cynnal y sesiynau canlynol yn y dyfodol:

- Defnydd diogel o offer
- Gwaith helyg
- Adeiladu blychau natur
- Adnabod bywyd gwyllt yn y coed
- Adnabod coed
- Ffotograffio natur
- Adeiladu â deunyddiau'r goedwig, gyda chymorth hyfforddwr Cysylltiadau Gwyrdd.

Bydd adborth yn yr adroddiad chwarter blwyddyn nesaf.

Ysgol Syr Thomas Picton

Dyma brosiect newydd, sydd wedi ei seilio yn ngardd natur Ysgol Syr Thomas Picton, Hwlffordd. Fe arweinir y prosiect gan ddau Gynorthwywr Addysg (LSA), Margret Ridgeway a Ian Grazette. Bu 7 disgybl yn bresennol am sesiwn gyntaf y prosiect, ar Fedi 11eg, pob un rhwng 14 a 17 mlwydd oed. Roedd Dave Hoyle yn bresennol i arwain gweithgareddau gwneud meinciau am y bedair sesiwn gyntaf, gyda'r bwriad o greu ardal eistedd yng nghanol yr ardd. Treulwyd y mwyafrif o'r sesiwn gyntaf yn cyflwyno'r safle a'r prosiect i'r bobl ifanc, a'i hyfforddi mewn defnyddio offer yn ddiogel. Yna fe drefnwyd gêm diogelwch i'r disgyblion chwarae. Roedd yn rhaid iddynt redeg o amgylch y safle a gosod triongl coch ger peryglon arfaethedig, yna roedd yn rhaid iddynt esbonio pam bod y safle'n beryglus. Maes o law, fe gyfrannodd hyn at asesiad diogelwch y safle. Fe ddechreuodd y bobl ifanc ar waith yn ystod y ddwy sesiwn ganlynol, ac fe wnaed cynnydd sylweddol yn adeiladu'r meinciau.

Ein amcan yw dilyn y gweithgareddau canlynol a'r grŵp hon yn y dyfodol:

- Clirio malurion
- Creu llwybrau
- Plannu coed
- Gwaith a helyg
- Ymwybyddiaeth natur
- Adnabod coed
- Creu arwyddion

Mae'r disgyblion wedi eu cofrestru ar gwrs lefel sylfaenol RhCA mewn Adnabod Offer, Becky fydd yn dilysu yn fewnol. Mi fydd hyn yn gyflwyniad da i'r broses o ennill cymhwyster RhCA, i'r arweinwyr a'r cyfranogion. Mae'r criw hwn wedi cael ei enwebu am Wobr John Muir (gweler uchod).

Bydd adborth yn yr adroddiad chwarter blwyddyn nesaf.

Hyfforddiant gweithwyr cynorthwyol:

Hyfforddiant Arweinwyr Coed Call:

Fe hyfforddwyd 7 gweithiwr ieuenctid ac athro o Geredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro i arwain cors Coed Call yng Ngholeg *Coppicewood*.
Fe arweiniwyd yr hyfforddiant gan Jo Steadman, hyfforddwr proffesiynol yn yr ysgol goedwigaeth, a Nick barnes, hyfforddwr mên gwaith coed gwyrdd yng Ngholeg *Coppicewood*.

Fe gynigwyd hyfforddiant yn y meysydd canlynol:
Iechyd a diogelwch;
Asesiad Safle;
Trefniadaeth argyfwng;
Sefydlu gwersyll;
Diogelwch wrth ddefnyddio offer a llaw;
Cynnau a rheoli tan.

Adborth o'r cyfranogwyr:
" Fe gynyddodd yr hyfforddiant fy nealltwriaeth o'r peryglon sydd ynghlwm â gweithgareddau awyr agored, ond hefyd fe awgrymodd lawer o syniadau am weithgareddau ar gyfer yr ieuenctid."
"Fe fydd yr hyfforddiant yn werthfawr iawn i'r arweinwyr, bydd yn rhoi hyder iddynt ac yn sicrhau fod cyn lleied a phosib o berygl i'r grwpiau maent yn ei harwain."

Diwedd yr Adroddiad.